Y CYFREITHIWR SWYDDOGOL

# CYFARWYDDIADAU SAFONOL

# I GYFREITHWYR[1]

# A GYFARWYDDWYD GAN Y CYFREITHIWR SWYDDOGOL

[1] Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn gymwys yn yr un modd lle bydd y Cyfreithiwr Swyddogol yn cyfarwyddo Gweithredydd Cyfreithiol

CYNNWYS

Rhagarweiniad

Ein priod rolau

Fy null gweithredu fel cyfaill cyfreitha

Eich costau

Cynnal yr achos

Llunio plediadau a datganiadau safbwynt

Gwrandawiadau

Fy rhyddhau o fy mhenodiad fel cyfaill cyfreitha

Diogelu Data

Materion eraill

Cwynion

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Rydych wedi derbyn cyfarwyddiadau gennyf i weithredu mewn achos lle'r wyf yn gyfaill cyfreitha. Gall cyfaill cyfreitha gael ei benodi ar gyfer:

> "plentyn"': unigolyn o dan 18 oed; neu
>
> "parti gwarchodedig": parti neu barti a fwriedir (heblaw 'P' neu blentyn) sydd heb alluedd o fewn ystyr Deddf Galluedd Meddyliol 2005 i gynnal yr achos (Rheolau Trefniadaeth Sifil 1998 r21.1(2), Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010 r2.3, Rheolau'r Llys Gwarchod 2017 r2.1); neu
>
> "P": (a) unrhyw unigolyn (heblaw parti gwarchodedig) sydd heb neu, i'r graddau ag sy'n gydnaws â'r cyd-destun, yr honnir sydd heb alluedd i wneud penderfyniad neu benderfyniadau yn achos unrhyw fater sy'n destun cais i'r llys; a (b) unigolyn perthnasol fel y'i diffinnir gan baragraff 7 o Atodlen A1 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (Rheolau'r Llys Gwarchod 2017 r2.1).

Ym mhob achos 'y cleient'.

1.2 At ddibenion Deddf Galluedd Meddyliol 2005, mae gan unigolyn ddiffyg galluedd mewn perthynas â mater os na allant ar yr adeg berthnasol wneud penderfyniad drostynt eu hunain oherwydd nam, neu amhariad yng ngweithrediad y meddwl neu'r ymennydd (a2(1) Deddf Galluedd Meddyliol 2005). Ni ellir gwneud penderfyniad ar ddiffyg galluedd drwy gyfeirio'n unig at (a) oedran neu ymddangosiad unigolyn, neu (b) cyflwr eu hymddygiad, neu agwedd ar eu hymddygiad, a allai wneud i eraill wneud tybiaethau anghyfiawn am eu galluedd.

1.3 Ni ddylid trin unigolyn fel rhywun nad yw'n gallu gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar y ffaith eu bod wedi gwneud penderfyniad annoeth.

1.4 Mae pedair elfen weithredol ar gyfer galluedd i wneud penderfyniadau (adran 3(1) Deddf Galluedd Meddyliol 2005) – ni all unigolyn wneud penderfyniad drostynt eu hunain os na allant:

(a) deall yr wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad

(b) cofio'r wybodaeth honno

(c) defnyddio neu bwyso a mesur yr wybodaeth honno fel rhan o'r broses o wneud y penderfyniad, neu

(d) cyfleu'r penderfyniad (boed drwy siarad, defnyddio iaith arwyddion neu unrhyw ddull arall).

1.5 Mae'r wybodaeth sy'n berthnasol i benderfyniad yn cynnwys gwybodaeth am allu rhesymol i ragweld canlyniadau (a) gwneud penderfyniad y naill ffordd neu'r llall, neu (b) methu â gwneud y penderfyniad. Yng nghyd-destun achos:

(a) mae'r wybodaeth berthnasol yn cynnwys cyngor cyfreithiol

(b) mae'r asesiad yn cyfeirio at gynnal yr achos yn ei gyfanrwydd, nid cyfeirio at bob cam yn y broses gyfreitha[2].

---

[2] gweler Kennedy LJ ym mharagraff 27: Masterman-Lister v Brutton & Co [2003] 3 All ER 162 a'r Fonesig Hale ym mharagraff 15, Dunhill v Burgin [2014] UKSC 18: *… a party whose capacity does not fluctuate either should or should not require a litigation friend throughout the proceedings. It would make no sense to apply a capacity test to each individual decision required in the course of the proceedings…*

1.6 Os yw un neu fwy o'r elfennau gweithredol yn absennol, bydd parti (oedolyn) gyda diffyg galluedd i gynnal yr achos.

1.7 Nid oes rhagdybiaeth fod gan blentyn y galluedd i gynnal achos llys. Y rheol gyffredinol yw bod plentyn yn gweithredu drwy gyfaill cyfreitha. Mae rheolau'r llys yn egluro'r eithriadau i'r rheol gyffredinol (gan gynnwys pan fydd plentyn yn cael ei gynrychioli drwy warcheidwad plant yn hytrach na gweithredu drwy gyfaill cyfreitha)[3].

1.8 Yn fy swyddfa i, bydd rheolwr achos yn gyfrifol am y ffeil ac am roi cyfarwyddiadau i chi.

1.9 Yn ystod yr achos rhaid i chi anfon copïau at fy rheolwr achosion (drwy ddulliau electronig yn unig) o'r holl blediadau, dogfennau, a gohebiaeth (heblaw am ohebiaeth gyffredinol). Dylech gynnwys fy nghyfeirnod ym mhob gohebiaeth.

1.10 Bydd fy rheolwr achosion yn gwarchod dogfennau a anfonir atoch sy'n cynnwys data personol sensitif drwy ddefnyddio cyfrinair. Anfonir cyfrinair unigryw atoch ar wahân. Os oes gennych gyfrif CJSM mi allwch ddefnyddio hwnnw heb yr angen am gyfrinair.

1.11 Noder, nid wyf yn cydsynio i'r defnydd o offerynnau deallusrwydd artiffisial ar gyfer unrhyw ddata personol, p'un a yw'n perthyn i fy staff neu fy nghleientiaid. Sicrhewch nad ydych yn defnyddio offerynnau o'r fath, na'n caniatáu i unrhyw drydydd bartïon ddefnyddio offerynnau o'r fath, wrth weithio gyda data personol o fy swyddfa i.

## 2. EIN PRIOD ROLAU

2.1 Chi yw'r cyfreithiwr rwyf yn ei benodi ac yn ei gyfarwyddo ar ran y cleient. Byddwch yn cael cyfarwyddiadau gennyf i fel cyfaill cyfreitha'r cleient. Fy swyddogaeth fel cyfaill cyfreitha yw ychwanegu at alluedd a chrebwyll y cleient. Mi allaf wneud beth bynnag sy'n ofynnol neu'n sy'n cael ei awdurdodi gan y rheolau sydd i'w wneud gan barti. Dylech ymgynghori â mi ar bob mater y byddech yn gofyn am gyfarwyddiadau yn eu cylch gan gleient sydd â galluedd llawn.

---

[3] Rheolau Trefniadaeth Sifil 1998, r21.2, Rheolau Trefniadaeth Teulu 2020 r16.6, Rheolau'r Llys Gwarchod 2017, r17.2

2.2 Byddaf yn dibynnu arnoch chi (a chwnsel pan yn briodol) am gyngor cyfreithiol. Mae dyletswydd arnaf, drwy gymryd cyngor cyfreithiol priodol, i gyfarwyddo fy hun yn llawn â natur yr achos ac i'ch cyfarwyddo ar ba drywydd y dylech ei ddilyn ar ran y cleient.[4] Drwy gydol yr achos byddaf yn disgwyl bod fy rheolwr achosion yn cael ei hysbysu am y canlynol:

(a) yr amserlen
(b) cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau'r llys
(c) datblygiadau yn yr achos
(d) materion newydd wrth iddynt godi
(e) eich asesiad o'r dystiolaeth
(f) eich cyngor ar (i) y ffordd ymlaen (ii) costau.

2.3 Dylech roi eich cyngor (neu sylwadau fel bydd yn briodol) ar bob dogfen a ddaw gan bartïon eraill. Os rhoddir cyngor gan gwnsel a bod eich cyngor chi'n wahanol, rhai i chi'n gyntaf drafod eich rhesymau am y cyngor gwahanol hwnnw â'r cwnsler. Os bydd eich cyngor imi yn parhau i fod yn wahanol rhaid i chi nodi'r meysydd lle mae anghytundeb â chyngor y cwnsler a rhoi eich rhesymau imi am y cyngor gwahanol.

2.4 Bydd eich safonau a'ch dyletswyddau proffesiynol arferol yn gymwys gan gynnwys y Cod Ymddygiad a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr[5].

2.5 Os byddwch yn dirprwyo gwaith i gydweithiwr rhaid i'r gwaith gael ei wneud o dan eich goruchwyliaeth agos chi gan mai chi yw'r cyfreithiwr a benodwyd gennyf ac yr wyf yn ei gyfarwyddo ar ran y cleient.

2.6 Gan fy mod yn eich cyfarwyddo, fy lle i ac nid y cleient yw terfynu eich gwasanaeth. Byddaf wrth gwrs yn ystyried unrhyw anawsterau yn y berthynas rhyngoch chi â'r cleient. Dylech fy hysbysu ar unwaith os bydd unrhyw anawsterau'n codi.

2.7 Rwyf yn dibynnu arnoch am bob cysylltiad uniongyrchol â'r cleient. Chi fydd pwynt cyswllt cyntaf y cleient a'r sawl y dylai'r cleient droi ato am wybodaeth am yr achos. Ni fyddaf yn rhagweld y bydd fy rheolwr achosion yn cwrdd â'r cleient nac yn

---

[4] Re Whittall [1973] 3 All ER 35, 38 e-f.
[5] Ar gyfer Gweithredwyr Cyfreithiol, y Cod Ymddygiad CILEX

mynychu unrhyw wrandawiadau llys. Noder, fodd bynnag, na ddylech drin cyfarfodydd â'r cleient fel "cymryd cyfarwyddiadau" gan mai dim ond gen i fel cyfaill cyfreitha y gallwch gymryd cyfarwyddiadau. Rhaid cadw nodyn presenoldeb llawn o unrhyw gyfarfod o'r fath a'i anfon ymlaen at fy rheolwr achosion.

2.8 Mi all rhai cleientiaid fod yn anodd gweithio â hwy. Os bydd heriau'n codi, dylech drafod â fy rheolwr achosion i ganfod y ffordd orau o'u rheoli.

2.9 Mae'n bwysig sicrhau bod gwybodaeth a roddir i gleient yn cael ei rhoi mewn ffordd y gallant ei deall ac, mewn ffordd sy'n briodol i oedran ac amgylchiadau'r cleient (gan ddefnyddio iaith syml, cymhorthion gweledol neu ddulliau eraill). Mae'r un mor bwysig sicrhau bod y broses o rannu gwybodaeth yn cael ei rheoli mewn ffordd sy'n lleihau unrhyw effaith andwyol ar lesiant y cleient neu eu cyflwr meddyliol neu gorfforol. Efallai yr hoffech drafod hyn yn fwy manwl â fy rheolwr achosion. Os hoffai'r cleient rannu gwybodaeth ag unigolyn arall, dylech drafod hyn yn gyntaf â fy rheolwr achosion.

## 3. FY NULL O WEITHREDU FEL CYFAILL CYFREITHA

3.1 Dyletswydd cyfaill cyfreitha yw cynnal yr achos mewn ffordd deg a chymwys ar ran yr unigolyn y mae'r cyfaill cyfreitha'n gweithredu ar eu rhan. Rhaid sicrhau nad oes gan gyfaill cyfreitha unrhyw fuddiannau sy'n mynd yn groes i fuddiannau'r unigolyn hwnnw. Rhaid i bob cam a phenderfyniad a wneir yn yr achos, felly, gael eu gwneud er budd y cleient. Noder fod rôl cyfaill cyfreitha wedi'i chyfyngu i wneud penderfyniadau am y modd y cynhelir yr achos ac nid yw'n ymestyn i gynnwys penderfyniadau eraill ar gyfer neu ar ran y cleient.

3.2 Wrth benderfynu beth yw budd pennaf y cleient byddaf yn ystyried holl amgylchiadau a ffeithiau unigryw pob achos, gan ystyried y canlynol bob amser:

(a) dymuniadau a theimladau canfyddadwy'r cleient yn y gorffennol ac yn awr, y credoau a'r gwerthoedd a fyddai'n debygol o ddylanwadu ar y ffordd y cynhelir yr achos pe bai ganddynt alluedd, a ffactorau eraill y byddent yn debygol o'u hystyried pe baent yn gallu gwneud hynny

(b) yr angen, i'r graddau y byddai'n ymarferol i wneud hynny, i ganiatáu ac i annog y cleient i gyfranogi, neu i wella eu gallu i gyfranogi, gymaint ag sy'n bosib yn

y broses o wneud penderfyniadau sy’n ymwneud â chynnal yr achos.

3.3 Rhaid imi roi sylw dyladwy i hawliau a dymuniadau’r cleient wrth lunio fy sylwadau. Beth bynnag fo barn y cleient, fodd bynnag, ni fyddaf yn cyflwyno achos a fyddai’n groes i fuddiannau na llesiant y cleient. Gallai hyn olygu y byddaf yn penderfynu gwyro oddi wrth ddymuniadau penodol y cleient pan fyddaf yn eich cyfarwyddo ynglŷn â chynnal yr achos, er enghraifft, oherwydd:

(a) eich bod yn fy hysbysu nad oes tystiolaeth y gellir ei defnyddio i gefnogi hynny;
(b) fy mod o’r farn na fyddai cyflawni dymuniadau’r cleient yn hybu iechyd na llesiant y cleient; neu
(c) fy mod o’r farn y byddai’n anorfod y byddai safbwyntiau’r cleient yn cael eu gwrthod gan y llys.

## 4. COSTAU

4.1 Nid wyf yn codi tâl am weithredu fel cyfaill cyfreitha. Nid wyf fodd bynnag yn cael fy ariannu i dalu costau cyfreithiol y sawl yr wyf yn gweithredu fel cyfaill cyfreitha ar eu rhan, ac **ni fyddaf yn talu unrhyw gostau nac yn digolledu o fy nghyllideb fy hun.**

4.2 Mae’r cyfarwyddiadau hyn yn tybio fy mod yn fodlon bod sicrwydd digonol ar gael ar gyfer costau cyfreithiol fy nghleient.

4.3 Os ydych chi wedi rhoi swyddogaethau dirprwyedig ar waith i ganiatáu cymorth cyfreithiol, ni fyddaf yn talu unrhyw gostau os na fydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedyn yn cymeradwyo’r cyllid.

4.4 Ni ddylech ofyn am orchymyn costau na gorchymyn costau a wastraffwyd yn erbyn parti arall heb gael fy nghytundeb i yn gyntaf i gymryd y cam hwnnw.

4.5 Os bydd unrhyw broblemau’n codi a all effeithio ar y sicrwydd sydd mewn lle ar gyfer costau’r cleient, rhaid i chi gysylltu â mi ar unwaith, er enghraifft, os:

(a) bydd y cleient neu bartner y cleient yn methu â gwneud cyfraniad at gymorth cyfreithiol
(b) os oes gan y cleient benodai ar gyfer budd-daliadau’r Wladwriaeth, atwrnai

neu ddirprwy nad yw'n gwneud y cyfraniadau cymorth cyfreithiol

(c) oes cyfyngiadau'n cael eu gosod ar gymorth cyfreithiol, neu fod cymorth cyfreithiol wedi'i wrthod

(d) os cewch eich hysbysu bod dirprwy ar gyfer eiddo a materion ariannol wedi'i benodi ar gyfer y cleient

(e) os cewch eich hysbysu bod gan y cleient Atwrneiaeth Barhaus.

(f) os cewch eich hysbysu bod gan y cleient Atwrneiaeth Arhosol ar gyfer eiddo a materion ariannol

(g) os yw costau'r cleient yn cael eu talu o ystâd y cleient a (i) bod y cleient yn dod yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol neu (ii) os yw amgylchiadau'r cleient yn newid i'r graddau fel na fydd yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol

(h) os nad yw bil interim wedi'i dalu neu os oes oedi cyn ei dalu

(i) os nad yw trydydd parti sydd wedi cytuno i dalu costau'r cleient wedi gwneud hynny.

4.6 Rhaid i chi roi copi i fy rheolwr achosion o'r holl ohebiaeth (oddi wrth ac i'ch cwmni) sy'n ymdrin â phroblem yn ymwneud â chostau, y trefniadau ar gyfer sicrhau'r costau, talu costau neu unrhyw beth sy'n awgrymu y gellid gwneud cais am gostau yn fy erbyn i, fel cyfaill cyfreitha'r cleient.

## 5. CYNNAL YR ACHOS

5.1 Dylech gofnodi a chyflwyno hysbysiadau gweithredu/cyhoeddi neu hysbysiadau o newid yn y ffordd arferol pan fydd sefyllfa'r costau wedi'i sefydlu..

5.2 Yn ddibynnol ar oedran y cleient, eu gallu i ddeall ac amgylchiadau'r cleient, dylech drefnu i gwrdd â'r cleient i drafod yr achos ac i gael gwybodaeth berthnasol. Dylech gadw mewn cof na fydd gwybodaeth a roddir gan y cleient o reidrwydd yn ddibynadwy. Dylech hefyd egluro wrth y cleient am fy mhenodiad fel cyfaill cyfreitha a fy rôl. Os cynigir y dylai trydydd parti fod yn bresennol mewn trafodaethau o'r fath, dylech drafod hyn â fy rheolwr achosion yn gyntaf. Mae'n bwysig bod cleient yn cael cymorth priodol ond mae'n bwysig hefyd sicrhau bod y trydydd parti yn ymwybodol o faterion cyfrinachedd.

5.3 Efallai y bydd angen i chi weld y cleient fwy nag unwaith wrth i dystiolaeth gan y parti neu'r partïon eraill gael ei chyflwyno. Dylech gadw mewn cof yr angen i ganfod dymuniadau a theimladau'r cleient bob amser a sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r

hyn sy'n digwydd ym mywyd y cleient i'r graddau ag y bo hynny'n berthnasol i'r materion sydd gerbron y llys.

5.4 Efallai na fydd gan y cleient ddim neu fawr ddim profiad o broses y llys ac y byddant yn teimlo bod eu rhan yn yr achos yn achosi straen iddynt neu'n gwneud iddynt deimlo'n ddryslyd. Mae hyn yn debygol o fod yn fwy gwir yn achos parti sy'n gweithredu trwy gyfaill cyfreitha. Disgwyliaf y byddwch yn ystyried ac yn trafod gyda'r cleient pa gyfrwng cyfathrebu sydd orau iddynt[6].

5.5 <u>Pa bryd bynnag</u> y byddwch yn gweld neu'n siarad â'r cleient, rhaid i chi baratoi ac anfon nodyn presenoldeb manwl ymlaen ataf i'w ystyried (dylech hefyd anfon unrhyw negeseuon e-bost neu negeseuon eraill gan y cleient ataf). Yn gyffredinol, dylai nodiadau presenoldeb gofnodi:

(a) dymuniadau a theimladau'r cleient

(b) barn y cleient am yr achos

(c) unrhyw wybodaeth berthnasol a roddir gan y cleient neu'r sawl sy'n gofalu am y cleient neu'n eu helpu, neu'r sawl a wnelont â'u llesiant.

(d) sylwadau'r cleient am eu hamgylchiadau eu hunain

(e) os gall y cleient ddeall a gwneud sylwadau ar yr achos a wneir gan y parti neu'r partïon eraill, yna dylid cynnwys sylwadau'r cleient am yr achos hwnnw

(f) barn y cleient, os oes ganddynt farn, am fynd i'r llys.

5.6 Os hoffai'r cleient neu'r sawl sy'n gyfrifol am ofal a llesiant y cleient gael rhagor o wybodaeth amdanaf i, mae rhagor o wybodaeth ar gael ar www.gov.uk.

**Eich sylwadau a'ch cyngor**

5.7 Yn gyffredinol dylai eich nodiadau presenoldeb ddisgrifio'r hyn mae'r cleient wedi'i ddweud wrthych yn hytrach na'ch cwestiynau a'ch arsylwadau chi. Dylech gynnwys eich arsylwadau a'ch cyngor eich hun ar yr achos ac unrhyw gyfarfodydd â'r cleient mewn llythyr eglurhaol neu nodyn ar wahân at fy rheolwr achosion.

---

[6] Gofynnir i chi ystyried a oes gan y cleient galluedd is i ddarllen neu ysgrifennu, nam ar eu clyw neu eu golwg, bod angen mwy o amser arnynt mewn cyfarfodydd neu gymorth gan drydydd parti, bod angen gwybodaeth mewn fformat hawdd ei ddarllen neu wedi'i anelu at oedran briodol, neu a oes ganddynt anawsterau cyfathrebu penodol lle bydd angen cyngor proffesiynol.

6. LLUNIO PLEDIADAU A DATGANIADAU SAFBWYNT

6.1 Rhan o'ch rôl chi fel cyfreithiwr neu gwnsel yw llunio plediadau (gan gynnwys unrhyw ddatganiad safbwynt). Dylech drafod â fy rheolwr achosion pwy ddylai fod yn gyfrifol am baratoi'r drafft – gweler hefyd 7.5 isod. Rhaid cofnodi plediadau a datganiadau safbwynt yn unol ag amserlen y llys. Rhaid i ddogfennau drafft, felly, gael eu cyflwyno i fy rheolwr achosion yn brydlon i ganiatáu digon o amser ar gyfer y broses gymeradwyo gen i.

6.2 Dylech bob amser drafod cynnwys datganiad safbwynt yn gyffredinol â fy rheolwr achosion cyn gynted ag y byddwch yn barod i'w lunio.

6.3 Dylai fy natganiad safbwynt egluro fy safbwynt fel cyfaill cyfreitha ar y cais gerbron y llys. Byddaf yn penderfynu ar fy safbwynt ar ôl trafodaethau gyda chi ac ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gasglwyd ar ran y cleient. Byddaf yn ystyried ac yn gwrando ar eich cyngor ar y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y partïon eraill. Mae'n bwysig bod fy natganiad safbwynt hefyd yn tynnu sylw'r llys at dystiolaeth o ddymuniadau a theimladau'r cleient, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r materion gerbron y llys; a'i fod yn gwneud hynny lle mae fy safbwynt i'n wahanol i ddymuniadau'r cleient.

6.4 Os caiff cwnsler eu cyfarwyddo, dylent lunio unrhyw ddatganiad safbwynt neu ddadl fras. Dylech weld a chymeradwyo'r drafft cyn iddo gael ei gyflwyno imi i gael ei gymeradwyo.

6.5 Dylai dogfennau drafft gael eu hanfon fel atodiad e-bost ar ffurf dogfen Microsoft Word, a dylai'r holl eiriau fod mewn llythrennau bach (er enghraifft: cyfaill cyfreitha a llys), heblaw am enwau pobl neu leoedd. Dylai dogfennau drafft gael eu labelu a'u dyddio'n eglur (e.e. DRAFFT OS PS (v1) 01.01.2023). Dylai unrhyw ddrafft dilynol gael ei labelu felly (e.e. (v2)).

6.6 Dylai plediadau a datganiadau safbwynt gyfeirio at y cleient fel "gweithredu trwy ei gyfaill/ei chyfaill cyfreitha, y Cyfreithiwr Swyddogol".

7. GWRANDAWIADAU

7.1 Fel arfer, ni fydd fy rheolwr achosion yn bresennol mewn gwrandawiadau. Rhaid i chi drafod unrhyw wrandawiad arfaethedig â fy rheolwr achosion a chynghori ynglŷn â chael gwybodaeth am y cyfarwyddiadau y bydd eu hangen arnom cyn gynted ag y bydd yn ymarferol cyn y gwrandawiad. Os bydd materion newydd yn codi yn ystod gwrandawiad, rhaid i chi gael cyfarwyddiadau pellach gan fy rheolwr achosion. Nid yw'n dderbyniol i ddweud nad ydych wedi cael cyfarwyddiadau gennyf oni bai bod y llys wedi gwrthod cyfle i chi i gymryd cyfarwyddiadau ar y mater(ion) newydd. Os na fydd fy rheolwr achosion ar gael am ba bynnag reswm, bydd un o'u cydweithwyr wrth law bob amser i helpu.

7.2 Dylech sicrhau bod yr amserlen yn realistig, gan gofio:

(a) efallai y bydd angen i chi drafod tystiolaeth â'r cleient cyn cyflwyno eich cyngor imi ac efallai y bydd angen mwy nag un cyfarfod o gofio oedran neu amgylchiadau'r cleient

(b) eich angen am gyfarwyddiadau gennyf i fel cyfaill cyfreitha

(c) yr amser a fydd ei angen i gymeradwyo unrhyw blediadau / datganiad safbwynt.

7.3 Yn syth ar ôl y gwrandawiad rhaid i chi hysbysu fy rheolwr achosion o'r canlyniad. Rhaid anfon nodyn presenoldeb llawn o unrhyw wrandawiad at fy rheolwr achosion ynghyd â'ch cyngor ar unrhyw faterion sy'n codi. Dylai cofnodon drafft o orchmynion gael eu cymeradwyo'n gyntaf gan fy rheolwr achosion, pan yn bosibl.

7.4 Rhaid cael gorchmynion dan sêl a'u hanfon at fy rheolwr achosion ar y cyfle cyntaf.

7.5 Rwyf yn dibynnu arnoch i gyfarwyddo cwnsler yn gynnar, ac nid ar gyfer y gwrandawiad terfynol yn unig – gweler hefyd 6.1 uchod. Ni ddylai penderfyniad i beidio â chyfarwyddo cwnsler gael ei wneud heb drafodaeth â fy rheolwr achosion. Dylech ymgynghori â fy rheolwr achosion ynglŷn â'r dewis o gwnsler. Rhaid anfon briffiau at y cwnsler yn ddigon cynnar cyn y gwrandawiad i ganiatáu digon o amser i gynghori ac ar gyfer gwaith cyn y gwrandawiad.

7.6 Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod cwnsler yn cael ei hysbysu am rôl cyfaill cyfreitha. Dylid cynnwys copi o fy Nghyfarwyddiadau Safonol â'r brîff.

7.7 Dylai unrhyw angen am gynhadledd gael ei drafod â fy rheolwr achosion. Os trefnir cynhadledd, holwch fy rheolwr achosion i ganfod a ydynt yn dymuno ymuno â'r gynhadledd cyn cadarnhau'r trefniadau.

7.8 Oni bai bod hysbysiad yn debygol o achosi trallod sylweddol ac anghymesur i'r cleient, dywedwch wrth y cleient am ddyddiad unrhyw wrandawiad a chyfeiriad y llys. Ni ddylai'r cleient orfod mynychu gwrandawiadau ond os ydynt yn datgan dymuniad i fod yn bresennol, rwyf o'r farn ar y cyfan y dylent fod yn bresennol oni cheir cyngor sy'n nodi y byddai hynny'n niweidiol iddynt. Dylech wneud ymholiadau a threfniadau priodol os bydd angen.

7.9 Pe bai cwnsler yn cael ei gyfarwyddo, mi fuaswn yn disgwyl eich bod chi neu gydweithiwr priodol yn bresennol gyda'r cwnsler, yn enwedig os bydd y cleient yn bresennol yn y gwrandawiad.

## 8. FY RHYDDHAU O FY MHENODIAD FEL CYFAILL CYFREITHA

8.1 Bydd yr angen i'r cleient gael cyfaill cyfreitha'n cael ei adolygu'n barhaus.

8.2 Gall iechyd y cleient wella yn ystod yr achos, neu mi all y cleient gyrraedd eu pen blwydd yn 18 oed. Dim ond os bydd y parti'n parhau heb alluedd i gynnal yr achos neu os yw'r parti o dan 18 oed y gallaf weithredu fel cyfaill cyfreitha i barti.

8.3 Os wyf yn gyfaill cyfreitha i blentyn, a'ch bod o'r farn y byddant yn parhau i fod angen cyfaill cyfreitha ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed, dylech gael asesiad o'u galluedd (o fewn ystyr Deddf Galluedd Meddyliol 2005) i gynnal yr achos yn y cyfnod cyn eu pen blwydd yn 18 oed.

8.4 Os ydych yn ansicr ar unrhyw adeg yn ystod yr achos a yw'r cleient yn parhau i fod â diffyg galluedd i gynnal yr achos, dylech gael rhagor o dystiolaeth os bydd angen, gan ddefnyddio fy nhystysgrif safonol o alluedd i gynnal achos[7].. Os bydd y dystiolaeth honno'n cadarnhau bod y cleient wedi ennill neu adfer galluedd i gynnal yr achos, byddaf yn eich cyfarwyddo i wneud cais i fy rhyddhau fel y gall y cleient gynnal yr achos drostynt eu hunain. Dylai unrhyw gais i fy rhyddhau gael ei wneud

[7] Wedi'i gyhoeddi ar www.gov.uk

yn brydlon gan y bydd fy mhenodiad fel cyfaill cyfreitha'n parhau nes imi gael fy rhwyddhau drwy orchymyn llys.

8.5 Os na fydd y cleient ar unrhyw adeg yn derbyn bod ganddynt ddiffyg galluedd i gynnal yr achos drostynt eu hunain, neu fod mater yn cael ei godi ynglŷn â hyn, byddaf yn parhau i weithredu fel cyfaill cyfreitha nes byddaf yn cael tystiolaeth foddhaol sy'n cadarnhau'r farn hon.

8.6 Noder os oes anghytundeb ynglŷn â galluedd yn codi neu os oes tystiolaeth gyferbyniol, bydd y mater o alluedd yn cael ei benderfynu gan y llys fel mater o ffaith ac yn gyfreithiol. Efallai y bydd angen i chi ofyn am wrandawiad brys i benderfynu ar fater lle mae anghytundeb ynglŷn â galluedd i gynnal yr achos.

## 9. DIOGELU DATA

9.1 Os bydd achos o dorri mesurau diogelu data neu os oes amheuaeth o hynny, rhaid i chi fy hysbysu o fewn 24 awr o'r adeg pan ddaeth y mater i sylw eich cwmni. Pan fyddwch yn fy hysbysu, rhaid i chi gadarnhau:

(a) maint y bygythiad posibl i ddata'r cleient

(a) a yw'r bygythiad i'r data'n gysylltiedig ag unrhyw un arall o fy nghleientiaid y mae eich cwmni'n gweithredu ar eu rhan

(b) y camau a gymerwyd gan eich cwmni ac unrhyw gamau rydych yn eu hargymell y dylwn eu cymryd o ganlyniad i unrhyw fygythiad i ddata a ganfuwyd neu amheuaeth o fygythiad i liniaru'r hyn sydd wedi digwydd.

## 10. MATERION ERAILL

10.1 Gofynnwch am gyfarwyddiadau penodol os ceir cais i drosglwyddo neu ddatgelu'r ffeil.

10.2 Os bydd unrhyw faterion ategol yn codi yn ystod yr achos, dylech gysylltu â'r rheolwr achosion. Mae enghreifftiau cyffredin yn cynnwys cyhoeddi, neu gynnig i gyhoeddi achosion eraill neu ymchwiliad troseddol neu gyhuddiad sy'n deillio o'r un ffeithiau.

## 11. CWYNION

11.1 Cyhoeddir fy mholisi cwyno ar www.gov.uk.

Sarah Castle

Cyfreithiwr Swyddogol i'r Uwchlysoedd

Rhagfyr 2023

www.gov.uk